PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

T. H. Parry-Williams a Helynt y Gadair Gymraeg yn Aberystwyth yn 1919-1920

Huws, Bleddyn

Published in:
Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion | Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion

Publication date:
2015

Citation for published version (APA):
Huws, B. (2015). T. H. Parry-Williams a Helynt y Gadair Gymraeg yn Aberystwyth yn 1919-1920. *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion | Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, *2015*, 69-88.

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 02. Oct. 2023

T. H. Parry-Williams a Helynt y Gadair Gymraeg yn Aberystwyth yn 1919-1920

Bleddyn Owen Huws

Mewn sgwrs radio hunangofiannol a luniodd yn 1970, ryw ddeunaw mlynedd ar ôl iddo ymddeol o'i swydd fel Athro a Phennaeth Adran y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, mae T. H. Parry-Williams yn bwrw trem yn ôl ar rai o droeon cynnar ei yrfa ac yn cyfeirio'n benodol at sesiwn academaidd 1919-20 pan wrthododd gael ei ailbenodi i'w swydd fel darlithydd cynorthwyol, swydd yr oedd wedi ei dal oddi ar 1914.[1] Fe benderfynodd, yn ei eiriau ef ei hun, '[d]aflu popeth i'r gwynt' a newid llwybr ei yrfa'n llwyr drwy ymrestru fel myfyriwr blwyddyn gyntaf yn y Coleg gyda'r bwriad o astudio meddygaeth yn un o ysbytai Llundain. Er dweud bod y fenter honno'n un eithaf 'rhyfygus' ar ei ran – dyna ei union air ef i ddisgrifio'i benderfyniad – mae'n cyfaddef i'r flwyddyn honno fod, ac rwy'n dyfynnu, yn 'un o'r blynyddoedd mwyaf gorfoleddus yn fy hanes academig.'[2]

Llwyddodd yn ei arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn mewn pedwar pwnc gwyddonol gan ddod ar frig y dosbarth ac ennill ysgoloriaeth lawfeddygol werth £20. Cynigid yr ysgoloriaeth honno i fyfyriwr a oedd wedi treulio o leiaf ddau dymor yn astudio gwyddoniaeth yn y Coleg fel paratoad ar gyfer graddio mewn meddygaeth neu lawfeddygaeth mewn ysgol feddygol unrhyw le ym Mhrydain. Ond trawsffurfiad byr a thros dro oedd hwnnw o fod yn ddarlithydd Cymraeg i fod yn fyfyriwr gwyddonol a darpar fyfyriwr meddygol, oherwydd erbyn diwedd y sesiwn academaidd, cyn iddo sefyll arholiadau Prifysgol Llundain i gael mynediad i Ysbyty Barts, yr oedd wedi'i benodi yn Athro'r Gymraeg. Wrth gyfeirio at hynny yn ei sgwrs radio mae'n dweud hyn: '... un bore yr oeddwn yn fyfyriwr meddygol; ac yn y prynhawn yn Athro cadeiriog.' Dyna fetamorffasis arall a ddaeth ag ef yn ei ôl at ei briod faes y dewisodd lynu wrtho weddill ei yrfa. Ond fe allasai yn rhwydd fod wedi cael gyrfa yr un mor llwyddiannus fel meddyg, neu lawfeddyg hyd yn oed. Wrth drafod ei yrfa fel myfyriwr, cyfeiriodd at ei lwyddiant rhyfeddol yn ei arholiadau, 'yn arbennig,' meddai ef, 'o gofio'r amgylchiadau.' Yr hyn yr wyf am ei wneud yn y ddarlith hon yw bwrw golwg fanylach ar yr amgylchiadau

[1] Darlith Gymraeg Flynyddol Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 4 Mehefin 2014. Y cadeirydd oedd Dr Adrian Morgan.
[2] Llyfrgell Genedlaethol Cymru (=LlGC), 'Papurau T. H. Parry-Williams', G85.

hynny a fodolai yn 1919-20, cyfnod y cyfeiriodd Parry-Williams ei hun ato mewn drafft arall o'r un sgwrs radio yn 1970, fel 'amser anghysurus ac alaethus'.[3]

Pan benodwyd yr Athro Syr Edward Anwyl yn brifathro cyntaf y coleg hyfforddi athrawon newydd yng Nghaerllion ar Wysg yn 1913, fe drefnodd fod ei gyn-ddisgybl disglair yn dychwelyd i Goleg Aberystwyth ar ddechrau'r flwyddyn galendr ganlynol fel cymrawd trydedd flwyddyn Prifysgol Cymru i gyflwyno cyfres o ddarlithoedd yn ei absenoldeb ef er mwyn cynorthwyo T. Gwynn Jones a Timothy Lewis a oedd ar staff yr Adran Gymraeg.[4] Yn wir, mewn llythyr a ysgrifennodd at dad Parry-Williams yn Nhŷ'r Ysgol, Rhyd-ddu, ym mis Rhagfyr 1913, mynegodd Edward Anwyl ei awydd am weld y mab yn dod yn olynydd iddo. Dyma'i union eiriau:

> Yr wyf yn *awyddus iawn* iddo fod yn olynydd i mi, oblegid y mae yn fil mwy cymwys na neb arall y gwn am dano ... Gellwch fod yn sicr nad oes neb y carwn yn fwy ei gael i gario ymlaen y gwaith a ddechreuais yma nag efe.[5]

Erbyn mis Gorffennaf 1914 yr oedd Parry-Williams wedi'i benodi'n ddarlithydd cynorthwyol dros dro ar gyflog o £175 y flwyddyn. Roedd y 'dros dro' yn nheitl swydd y darlithydd yn peri ansicrwydd ac mae'n debyg iddo gyfleu ei anesmwythyd ynghylch ei safle yn 1915 wrth Syr John Williams, Llywydd y Coleg, gan fygwth cefnu ar iaith a llên ac astudio meddygaeth. Derbyniodd ateb chwyrn gan y Llywydd yn dweud wrtho y dylai geisio dangos nad yn ofer yr ymddiriedodd y Coleg ei ffydd yn ei ddoniau fel addysgwr ac ysbrydolwr ieuenctid pan roddodd droedle iddo fel darlithydd.[6]

Erbyn sesiwn 1917-18, fodd bynnag, yr oedd y 'dros dro' wedi diflannu o deitl ei swydd, pan ddaeth yn ddarlithydd cynorthwyol, ac mae'n bosibl i hynny ddigwydd oherwydd fod ei gyd-weithiwr, Timothy Lewis, erbyn hynny wedi ymuno â'r fyddin, ac nad oedd ond dau aelod yn cynnal holl waith yr Adran, sef ef ei hun a T. Gwynn Jones. Erbyn hynny hefyd yr oedd Parry-Williams yn arholwr mewnol ar gyfer arholiadau gradd. Ond doedd dim sôn am lenwi'r Gadair Gymraeg, ac fel sawl cadair arall yn y Coleg, gwag fu hi tan ar ôl y Rhyfel.

---

[3] Ibid., G83, t. 18.
[4] Am y cefndir yn llawn, gw. R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams*, cyfres Dawn Dweud (Caerdydd, 1999), ac astudiaeth ragorol Angharad Price, *Ffarwél i Freiburg [:] Crwydriadau Cynnar T. H. Parry-Williams* (Llandysul, 2013).
[5] Dyfynnir o'r llythyr a anfonwyd gan Edward Anwyl at Henry Parry-Williams yn Nhŷ'r Ysgol, Rhyd-ddu, ar 2 Rhagfyr 1913, yng nghais T. H. Parry-Williams am y Gadair ym Mehefin 1920. Cedwir copi o'r cais yn y ffeil ynglŷn â'r Gadair Gymraeg yn 1919-20 yn Archifdy Prifysgol Aberystwyth, blwch C/C.S.CH./2.
[6] *T. H. Parry-Williams*, cyfres Dawn Dweud, tt. 81-2.

Brodor o'r Efail-wen, Sir Benfro oedd Timothy Lewis a adawodd yr ysgol yn dair ar ddeg oed i fynd i weithio dan ddaear fel glöwr yng Nghwmaman, cyn mynd, yn ddwy ar hugain oed, i Brifysgol Caerdydd lle bu'n astudio wrth draed Thomas Powel.[7] Yr oedd ddeng mlynedd yn hŷn na Pharry-Williams. Wedi graddio mewn Celteg enillodd ysgoloriaeth i'r School of Irish Learning yn Nulyn lle cafodd waith darlithio o dan gyfarwyddyd yr Athro John Strachan (1862-1907) a'r Athro Kuno Meyer (1858-1919). Treuliodd ddwy flynedd wedyn yn ymchwilio yn Lerpwl gyda chymorth ysgoloriaeth arall, a dilynodd yr Athro Strachan o Ddulyn i Brifysgol Victoria, Manceinion, lle daliai ysgoloriaeth ymchwil mewn Celteg a swydd fel darlithydd cynorthwyol. Yno y gwnaeth ei draethawd Meistr ar destun cynnar o'r Cyfreithiau. Astudiodd Hen Wyddeleg a Gwyddeleg Canol yno, ynghyd ag ieithyddiaeth Geltaidd, ieithyddiaeth gymharol a Sansgrit dan gyfarwyddyd Strachan, a phaeliograffeg Gymraeg dan gyfarwyddyd J. Gwenogvryn Evans. Mae'n debyg mai dyna pryd y ffurfiodd gyfeillgarwch mynwesol â Gwenogvryn, gŵr a ddaeth yn y man yn un o'i gefnogwyr academaidd mwyaf brwd. Bu'n astudio ieitheg Geltaidd hefyd am gyfnod yn yr Almaen o dan yr Athro Heinrich Zimmer ym Mhrifysgol Friedrich Wilhelm ym Merlin a'r Athro Rudolf Thurneysen ym Mhrifysgol Freiburg, lle bu Parry-Williams yntau yn ddiweddarach. Yn 1910 penodwyd ef yn ddarlithydd cynorthwyol yn Aberystwyth. Am rai blynyddoedd bu'n arholwr allanol mewn Celteg ym Mhrifysgol Genedlaethol Iwerddon, ac roedd ganddo brofiad o arholi'n fewnol yn Aberystwyth ac i Fwrdd Addysg Canolog Cymru. Ystyrid gan rai ei fod ymhlith yr ysgolheigion hynny a allai fod yn llygadu cadair wag Edward Anwyl.[8]

O dan y cynllun recriwtio milwyr i'r fyddin a arweinid gan yr Arglwydd Derby, a geisiai chwyddo maint y fyddin o wirfoddolwyr y gellid galw arni pan ddeuai'r angen, ymunodd Timothy Lewis fel gwirfoddolwr ar 10 Hydref 1915.[9] Mae'n debyg i 350,000 o ddynion ymuno â'r fyddin trwy Gynllun Derby, ac fel math o abwyd, dywedid wrthynt na fyddai gwŷr priod ond yn cael eu galw petai'r cyflenwad o ddynion sengl i gyd wedi'i ddihysbyddu. Yr oedd Timothy Lewis erbyn 1915 yn ddyn priod ers pedair blynedd, a ganwyd merch iddo ef a'i wraig ym mis Gorffennaf 1916, ryw dri mis cyn iddo gael ei alw i wasanaethu yng

[7] Ar fywyd a gyrfa Timothy Lewis (1877-1958), gw. erthygl W. Beynon Davies yn *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970* (Llundain, 1997), tt. 128-30, ynghyd ag erthygl lawnach yr un awdur, 'Timothy Lewis (1877-1958)' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 21 (1979-80), 145-58.
[8] Fe'i henwid ef ac Ifor Williams a W. J. Gruffydd a T. H. Parry-Williams fel yr ymgeiswyr mwyaf tebygol am y Gadair, gw. *Cambrian Daily Reader*, 6 Mawrth 1914, t. 1.
[9] Gw. cofnodion milwrol Timothy Lewis (British Army WW1 Service Records, rhifau 317-50) ar http://interactive.ancestrylibrary.com (cyrchwyd 5 Mawrth 2014).

Nghatrawd Brenhinol y Gynnau Mawr, y *Royal Gunners Artillery*. Cymhwysodd yn signalydd ac yn hyfforddwr y gynnau mawr, a dewisodd fynd i Ffrynt y Gorllewin yn Hydref 1917. Bu ym mrwydrau'r Somme a'r cyrchoedd yn Ypres. Tra oedd yn y fyddin yr oedd yn parhau'n arholwr Celtaidd allanol ym Mhrifysgol Iwerddon. Y mae ar glawr lythyr gan Lywydd Prifysgol Corc at gadfridog yn y fyddin yn gofyn iddo ryddhau Timothy Lewis am rai dyddiau er mwyn gallu arholi myfyriwr am radd anrhydedd mewn Astudiaethau Celtaidd, a llythyr arall gan Timothy Lewis ei hun yn cyfeirio at arholi yng Nghorc ac yn Nulyn.[10]

Gan nad oedd cynllun recrtiwtio'r Arglwydd Derby yn ddigonol i gyflenwi'r angen mawr am filwyr yn y rhengoedd, penderfynodd y Llywodraeth gyflwyno'r Ddeddf Gwasanaeth Milwrol ym mis Ionawr 1916 a fyddai'n ei gwneud hi'n orfodol i bob dyn dibriod, abl ei gorff, rhwng 18 a 41 mlwydd oed, wasanaethu'n y fyddin drwy gonsgripsiwn. Adroddir yng Nghofnodion Coleg Aberystwyth ym mis Mai 1916 fod Timothy Lewis i barhau i dderbyn cyfran o'i gyflog tra oedd yng ngwasanaeth y fyddin, sef y swm a oedd yn weddill ar ôl tynnu'r arian a gâi fel milwr.[11] Telid yr arian hwnnw iddo trwy gydol yr amser y bu'n y fyddin trwy argymhelliad pwyllgor cyllid y Coleg. Un arall a dderbyniai gyfran o'i gyflog tra oedd yn y fyddin oedd Oscar Parry-Williams, brawd T. H. Parry-Williams, a oedd, cyn cael ei alw i fyny, yn glerc yn swyddfa Cofrestrydd Coleg Aberystwyth. Ymunodd â Chwmni'r Myfyrwyr Cymreig a oedd yn rhan o Gorfflu Meddygol y Fyddin ym mis Chwefror 1916, a derbyn clod mawr am ei waith fel clerc yn swyddfa cyfarwyddwr Corfflu Meddygol y Fyddin Brydeinig yn Ffrainc.[12] Yr oedd ei frodyr Willie a Wynne hefyd wedi ymuno â'r lluoedd; Willie fel aelod o'r fyddin Americanaidd ar ôl iddo ymfudo i America a dod drosodd i ymladd gyda'r Cynghreiriaid yn Ffrainc, a Wynne fel aelod o'r Ffiwsilwyr Cymreig.[13]

Dewis cofrestru fel gwrthwynebydd cydwybodol i'r rhyfel a wnaeth eu brawd hynaf, T. H. Parry-Williams. Ymddangosodd gerbron tribiwnlys dair gwaith i gyd i apelio yn erbyn cael ei

[10] Ibid., dogfennau difrodedig rhifau 329-30.
[11] Archifdy Prifysgol Aberystwyth, CNL/1/A2, *Cofnodion Cyngor Prifysgol Cymru Aberystwyth 1916-19*, tt. 44-5.
[12] Gw. y copi o'r llythyr a luniwyd gan y Cadfridog A. H. Heslop, dyddiedig 5 Ebrill 1919, yn canmol gwaith Oscar yn ystod cyfnod ei wasanaeth yn y fyddin, LlGC 'Papurau T. H. Parry-Williams', P39. Ceir ei enw ymhlith aelodau Cwmni Myfyrwyr Cymreig yr RAMC yn Chwefror 1916, gw. R. R. Williams, *Breuddwyd Cymro Mewn Dillad Benthyg* (Lerpwl, 1964), t. 7.
[13] Ymunodd Willie (William F. Parry-Williams) â'r fyddin Americanaidd ar 18 Mawrth 1918 ac yr oedd wedi'i ddyrchafu'n sarsiant erbyn iddo gael ei ryddhau yn 1919. Bu farw ar 7 Gorffennaf 1935 a'i gladdu ym Mynwent Genedlaethol Cypress Hills, Brooklyn, Efrog Newydd, gw. http://interactive.ancestrylibrary.com, US National Cemetry Interment Control Forms, 1928-1962 (cyrchwyd 5 Mawrth 2014). Clerc mewn banc yng Nghorwen oedd Wynne cyn ymuno â'r fyddin, a chafodd ei glwyfo a'i ddal yn garcharor yn yr Almaen am rai misoedd yn 1918.

alw i'r fyddin.[14] Pan ymddangosodd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 1916, gwnaeth gais am gael ei eithrio oherwydd ei gydwybod a hefyd oherwydd pwysigrwydd ei waith fel darlithydd prifysgol, ond fe wrthodwyd ei gais. Dywedodd cadeirydd y tribiwnlys wrtho y byddai'r Almaenwyr yn cyrraedd yn fuan iawn pe bai pawb fel efô. Atebodd yntau yn ddigon hunanfeddiannol, pe bai pawb fel fo na fyddai rhyfel o gwbl. Dywedodd ei fod yn llwyr wrthwynebu rhyfel a gwasanaeth milwrol. Roedd angen cryn ddewrder i lynu wrth safbwynt fel hwnnw, yn enwedig o gofio bod cymaint o aelodau agos o'i deulu ef ei hun yng ngwasanaeth y fyddin. Ar ôl iddo gyhoeddi'i ddyfarniad nacaol, dywedodd cadeirydd y tribiwnlys ei fod yn gobeithio y byddai'r prifysgolion, wedi i'r rhyfel ddod i ben, yn rhoi blaenoriaeth i'r dynion hynny a fu'n ddigon dewr i amddiffyn eu gwlad a'u brenin pan fyddid yn penodi i swyddi.

Penderfynodd Parry-Williams apelio yn erbyn y dyfarniad ymhen y mis. Y tro hwnnw, o dan gadeirydd gwahanol, derbyniodd wrandawiad mwy ffafriol, a chaniatawyd rhyddhad amodol iddo am flwyddyn. Ymhen y flwyddyn, ym mis Ebrill 1917, fe gafwyd peth dryswch yn y tribiwnlys apêl oherwydd yr ansicrwydd ar ba sail yn union y cafodd ei ryddhau flwyddyn ynghynt. Gan nad oedd y rheswm wedi'i nodi ar ei dystysgrif, roedd y swyddog milwrol a oedd yn bresennol yn hawlio na ddylai Parry-Williams osgoi cael ei alw gan fod cymaint o angen dynion ar y fyddin, yn enwedig ar ôl brwydr y Somme yng Ngorffennaf 1916, pan laddwyd dros bedwar can mil o ddynion, sef hanner beth oedd maint y fyddin Brydeinig gyfan yn 1914. Wrth ei amddiffyn ei hun eto yn wyneb her y swyddog milwrol, mynnodd iddo wrthwynebu ymrestru ar sail ei gydwybod ac ar sail pwysigrwydd ei waith yn paratoi myfyrwyr at eu gradd.[15]

Yr oedd Deddf Orfodaeth 1916 yn nodi nad oedd hawl gan swyddogion recriwtio'r fyddin i adolygu achos y sawl yr oedd tribiwnlys apêl wedi'i ryddhau ar sail ei gydwybod. Gan nad oedd y rheswm dros ryddhau Parry-Williams yn amodol yn Ebrill 1916 wedi'i nodi ar ei dystysgrif, roedd cryn amwysedd o hyd ynghylch hawliau'r swyddog milwrol. Mynnai ef yn bendant mai ar sail ei ddyletswyddau fel darlithydd prifysgol y rhyddhawyd Parry-Williams, tra mynnai Parry-Williams ei hun yr un mor bendant iddo gofrestru'i wrthwynebiad ar sail ei gydwybod yn ogystal ag ar sail pwysigrwydd ei waith. Oherwydd yr esgeulustod gweinyddol

[14] Ceir adroddiad ar y gwrandawiad cyntaf a gynhaliwyd yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth 1916 yn *Yr Herald Cymraeg*, 7 Mawrth 1916, t. 6, ac ar yr ail wrandawiad a gynhaliwyd ddiwedd Ebrill, ibid., 2 Mai 1916, t. 6.
[15] Gw. yr adroddiad manwl ar y gwrandawiad ym mis Mawrth 1917 yn *The Cambrian News and Welsh Farmers' Gazette*, 30 Mawrth 1917, t. 5.

a olygodd nad oedd y rhesymau dros ei eithrio wedi eu nodi ar ei dystysgrif, fe allai'r darlithydd fod wedi'i wysio i'r fyddin yn 1917, neu wynebu cael ei garcharu fel a ddigwyddodd i Gwenallt y bardd, a fyddai ymhen rhai blynyddoedd wedyn yn dod yn fyfyriwr ac yn gyd-weithiwr iddo yn yr Adran Gymraeg. Trodd Gwenallt ei brofiadau fel gwrthwynebydd cydwybodol a garcharwyd yn nofel am gymeriad o'r enw Myrddin Tomos yn *Plasau'r Brenin* (1934). Un arall a garcharwyd oherwydd ei safiad fel heddychwr oedd y cenedlaetholwr o gyfreithiwr, Ithel Davies, a ddangosodd yn ei hunangofiant sut y bu iddo gael ei guro a'i gam-drin gan rai swyddogion milain mewn carchar milwrol yn yr Wyddgrug.[16] Gwrthod dadl y swyddog milwrol a wnaeth mwyafrif aelodau'r tribiwnlys yn achos Parry-Williams a chaniatáu rhyddhad amodol iddo am flwyddyn arall.

Fe fu cadair y Gymraeg yn wag am bum mlynedd yn ystod y Rhyfel Mawr cyn bod awdurdodau'r Coleg mewn sefyllfa i allu ystyried ei llenwi. Erbyn mis Mawrth 1919, bedwar mis ar ôl y Cadoediad yn Nhachwedd 1918, yr oedd Cyngor y Coleg yn bwriadu sefydlu pwyllgor gyda golwg ar ddethol ymgeiswyr ar gyfer y Gadair.[17] Yr hyn a wnaeth hynny'n bosibl oedd rhodd ariannol eithriadol o hael gan deulu Davies Llandinam yn 1916. Cymynroddodd David Davies, Is-Lywydd y Coleg, a'i chwiorydd Margaret a Gwendoline, gan mil o bunnoedd i'r Coleg, sef ugain mil y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd, swm a fyddai'n gyfwerth ag ymhell dros bedair miliwn o bunnoedd yn ein harian ni.[18]

Mae'n amlwg fod colli Edward Anwyl a'r oedi mawr cyn llenwi'r Gadair Gymraeg wedi rhoi cyfle i awdurdodau'r Coleg drafod dyfodol yr Adran a chyfeiriad y Gymraeg fel pwnc. Mae'n hawdd gweld mai'r dewis oedd naill ai canolbwyntio ar iaith a llenyddiaeth Gymraeg neu ar Astudiaethau Celtaidd. Sefydlwyd pwyllgor ym mis Ebrill 1915 i drafod dyfodol yr hyn a elwid yn 'Astudiaethau Cymreig' yn y Coleg. Roedd Gwenogvryn Evans, a oedd yn aelod o Gyngor y Coleg, yn aelod blaenllaw o'r pwyllgor hwnnw, fe ymddengys, oherwydd ar ei gynigiad ef penderfynwyd gohirio penodi Athro'r Gymraeg a bwrw ymlaen gyda'r sefyllfa fel ag yr oedd dan ofal T. Gwynn Jones a T. H. Parry-Williams.[19] Fe ymgynghorwyd ag ysgolheigion allanol fel Syr John Rhŷs o Rydychen, Thomas Powel o Gaerdydd, John Morris-Jones a J. E. Lloyd o Fangor, a rhoed ystyriaeth i'w barn. 'Ar ôl trafodaeth faith', fel

[16] Ithel Davies, *Bwrlwm Byw* (Llandysul, 1984), tt. 62-79.
[17] Archifdy Prifysgol Aberystwyth, CNL/1/A2, *Cofnodion Cyngor Prifysgol Cymru Aberystwyth 1916-19*, t. 358, eitem 11, dyddiedig 7 Mawrth 1919, 'Chair of Welsh'.
[18] E. L. Ellis, *The University College of Wales Aberystwyth 1872-1972* (Cardiff, 1972), tt. 182-3.
[19] Archifdy Prifysgol Aberystwyth, CNL/1/A1, *Cofnodion Cyngor Prifysgol Cymru Aberystwyth 1911-1915*, tt. 527-8, eitem 7, dyddiedig 15 Ebrill 1915, 'Chair of Welsh'.

y dywedir yng nghofnodion y Coleg, fe gytunwyd ar rai egwyddorion sylfaenol ynghylch natur y radd Gymraeg, ac un o'r egwyddorion hynny oedd y byddai'n ddymunol cael dau ddewis ar gyfer myfyrwyr a oedd am raddio yn y pwnc. Yn gyntaf, cwrs ar iaith a llên gyda'r pwyslais yn bennaf ar yr iaith Gymraeg, ar ramadeg ac ieitheg, ac ar astudiaeth gymharol rhwng y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd eraill.[20] Yn ail, cwrs mewn iaith a llên gyda'r pwyslais yn bennaf ar lenyddiaeth Gymraeg ac ar astudiaeth gymharol o lenyddiaeth Geltaidd. Mae hynny i raddau yn esbonio lle y gwreiddiodd y syniad o greu dwy gadair Gymraeg o fewn yr Adran yn 1919, er nad oedd hynny wrth fodd pawb ar y pryd. Cychwynnwyd ar y broses o lenwi'r Gadair ym mis Mawrth 1919 pan sefydlwyd pwyllgor arbennig i ddewis ymgeiswyr, ar yr un adeg â phan oeddid yn ymorol am lenwi cadeiriau mewn Ffiseg, Cemeg a Mathemateg Bur. Cadeirydd y pwyllgor dewis oedd J. W. Marshall, sef y Prifathro dros dro yn absenoldeb T. F. Roberts oherwydd salwch, Syr Vincent Evans a Daniel Lleufer Thomas, cynrychiolwyr enwebedig Cyngor y Coleg, yr Athro Edward Edwards, cynrychiolydd senedd y Coleg, a oedd hefyd yn bennaeth gweithredol yr Adran Gymraeg, a'r Athrawon John Morris-Jones a W. J. Gruffydd.[21] Argymhelliad y pwyllgor hwn oedd hysbysebu swydd Athro'r Gymraeg a gwahodd arbenigwyr mewn iaith a llên i gyflwyno ceisiadau.

Hyd y gallaf gasglu, lluniodd y pwyllgor dewis ddau adroddiad. Yn gyntaf, adroddiad dros dro (*interim report*) erbyn cyfarfod o'r pwyllgor dewis a oedd i gyfarfod ar 8 Awst, ond a ohiriwyd oherwydd fod angladd y Prifathro T. F. Roberts i'w gynnal y diwrnod canlynol, ac ail adroddiad a luniwyd gan W. J. Gruffydd yn cloriannu cymwysterau'r ymgeiswyr ac a gylchredwyd i aelodau'r Cyngor ar 26 Medi 1919.[22] Yr ymgeiswyr hynny oedd T. Gwynn Jones, T. H. Parry-Williams, Timothy Lewis a Morgan Watkin, Athro Ffrangeg ym Mhrifysgol Johannesburg.[23]

[20] Ibid., tt. 574-5, dyddiedig 24 Medi 1915, sef adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Astudiaethau Cymreig a gyfarfu ar 24-5 Mehefin 1915.
[21] Archifdy Prifysgol Aberystwyth, CNL/1/A2, *Cofnodion Cyngor Prifysgol Cymru Aberystwyth 1916-19*, t. 358, eitem 11, dyddiedig 7 Mawrth 1919, 'Chair of Welsh'. Gw. hefyd ibid., t. 379 lle ceir adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor dewis a gyfarfu ym mis Mai 1919, a t. 397 lle ceir cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 1919.
[22] Cadwyd copïau o'r adroddiadau hyn yn y ffeil ynghylch y Gadair Gymraeg yn 1919-20 yn Archifdy Prifysgol Aberystwyth, blwch C/C.S.CH./2. Mae un ddalen ar goll yn yr adroddiad interim. W. J. Gruffydd oedd awdur y ddau adroddiad yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Dewis Prifysgol Cymru ar faterion Cymreig, gw. T. Robin Chapman, *W. J. Gruffydd*, cyfres Dawn Dweud (Caerdydd, 1993), tt. 71-2.
[23] Ar yrfa Morgan Watkin (1878-1970), gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig 1950-1970*, tt. 220-1.

Mae'n amlwg fod gwahaniaeth barn yn bodoli ymhlith aelodau'r Cyngor ynghylch natur deiliad y Gadair, am fod rhai ohonynt am weld ysgolhaig Celtaidd o fri rhyngwladol o'r tu allan i Gymru yn cael ei benodi. Dangosai adroddiad interim y pwyllgor dewis yn glir beth oedd gogwydd barn aelodau'r pwyllgor hwnnw. Dadleuent fod y gair 'Celtaidd' yn gamarweiniol, yn ogystal â'r gamdybiaeth fod ysgolheictod Celtaidd yn fwy uwchraddol nag ysgolheictod Cymraeg neu Wyddeleg, am mai syniad damcaniaethol oedd Celteg fel iaith a oedd wedi'i greu ar sail ein gwybodaeth am yr ieithoedd unigol, sef Cymraeg, Gwyddeleg, Gaeleg, Llydaweg a Chernyweg. Dadleuai'r pwyllgor dewis yn gadarn o blaid penodi Cymro Cymraeg i Gadair y Gymraeg, gan gydnabod hefyd fod gwybodaeth o'r holl ieithoedd Celtaidd yn angenrheidiol ar gyfer arbenigo ar iaith a llenyddiaeth un ohonynt. Teimlai'r pwyllgor fod y cymhwyster hwnnw gan y pedwar ymgeisydd.

Argymhelliad y pwyllgor dewis ym mis Awst 1919 oedd y dylid penodi T. Gwynn Jones i'r Gadair Gymraeg a bod angen trafodaeth bellach ynghylch yr ail Gadair. Gan na chredai rhai aelodau o'r Cyngor iddynt awdurdodi creu dwy Gadair yn yr Adran yn y lle cyntaf, bu trafodaeth hirfaith cyn iddynt benderfynu o blaid sefydlu dwy Gadair Gymraeg yn y Coleg, y naill mewn iaith a'r llall mewn llenyddiaeth. Mae'n ymddangos iddynt fabwysiadu cynnig yr adroddiad interim y dylid penodi Cymro cynhwynol i'r swydd, a chafwyd cadarnhad fod modd defnyddio cyfran o'r gwaddol a gafwyd gan deulu Davies i greu incwm digonol i dalu cyflog blynyddol o £600 i'r Athro Cymraeg.[24] Penderfynwyd cynnig swydd Athro mewn llenyddiaeth i T. Gwynn Jones a gadael y penderfyniad ynghylch yr ail Gadair tan gyfarfod nesaf y Cyngor ar 26 Medi.

Erbyn hynny yr oedd yr adroddiad a luniodd W. J. Gruffydd yn cloriannu cymwysterau'r ymgeiswyr wedi'i gyflwyno i aelodau'r Cyngor, ynghyd ag argymhelliad unfrydol y pwyllgor dewis, sef y dylai T. H. Parry-Williams gael ei benodi i'r Gadair Gymraeg. Mae'n debyg y byddai hynny wedi digwydd yn gymharol ddiffwdan oni bai i lythyrau gael eu darllen yng nghyfarfod y Cyngor gan y Gwir Barchedig John Owen, Archesgob Tyddewi, amryw ganghennau o Gymrodyr y Rhyfel Mawr, ynghyd â deiseb a lofnodwyd gan rai o drigolion tref Aberystwyth yn gwrthwynebu penodi T. H. Parry-Williams oherwydd ei safiad fel gwrthwynebydd cydwybodol yn y rhyfel.[25] Yr oeddynt hwy o blaid penodi Timothy Lewis, nid yn unig oherwydd ei gymwysterau fel ysgolhaig, ond hefyd am iddo fod mor

[24] Archifdy Prifysgol Aberystwyth, CNL/1/A2, *Cofnodion Cyngor Prifysgol Cymru Aberystwyth 1916-19*, tt. 408-9, sef cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Awst 1919.
[25] Ibid., t. 416, sef cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 1919.

ddewr ag ymaelodi'n wirfoddol â'r fyddin ac amddiffyn ei wlad yn wyneb bygythiad yr Almaenwyr. Oherwydd maint y gwrthwynebiad, penderfynodd Cyngor y Coleg ohirio'r penodiad tan fis Mehefin 1920. O dan yr amgylchiadau, efallai nad drwg o beth oedd hynny oherwydd ei fod yn gyfle i dynnu'r gwres o'r ddadl, yn enwedig gan fod rhai o filitarwyr a jingoistiaid mileinig y dref yn bygwth creu mwy fyth o brotestiadau pe bai Parry-Williams yn cael ei benodi. Roedd ewfforia buddugoliaethus y misoedd wedi diwedd y Rhyfel yn dal i gymylu gweledigaeth rhai. Dyna pryd y penderfynodd y darlithydd gefnu ar ei swydd.

Mae rhai o'r ffeithiau hyn yn ddigon gwybyddus ac wedi eu trafod o'r blaen yng nghyd-destun gyrfa Parry-Williams, ond beth nad yw wedi derbyn sylw manwl hyd yma yw natur a chynnwys y drafodaeth yn y wasg ynghylch y penodiad, a'r ymgyrch gyhoeddus ffyrnig yn erbyn Parry-Williams. Byddai'n deg dweud bod diddordeb cenedlaethol mewn gwybod pwy a fyddai'n olynu Syr Edward Anwyl yn y Gadair, diddordeb a fynegid yn y papurau lleol a chenedlaethol. Bu ymosodiadau hallt a phersonol iawn ar T. H. Parry-Williams yn y wasg, ac fe ddaeth yn amlwg i rai pwy oedd prif ysgogwyr yr ymgyrch gyhoeddus yn ei erbyn. Pan glywodd y newyddiadurwr a'r dramodydd Beriah Gwynfe Evans am benderfyniad T. H. Parry-Williams i gefnu ar ei swydd fel darlithydd ddechrau mis Hydref 1919, ysgrifennodd lythyr at ei gyfaill E. T. John, cyn-Aelod Seneddol Dwyrain sir Ddinbych:

> You will be elated to learn that Parry Williams has relinquished his post as Lecturer at Aberystwyth, and enrolled as a student at the College for a course in medicine! ... Meanwhile the work which was formerly done by three is now divided between two, – Gwynn Jones who gets £600 a year for taking the lighter half, as *he is not qualified* to take the work of Old Welsh, Old Irish, and Research, and Timothy Lewis who gets £250 for performing double duty and undertaking work which Gwynn is not qualified to undertake![26]

Beth yn y byd, meddech chwi, oedd diddordeb Beriah Evans yn y newydd diweddaraf hwn o Goleg Aberystwyth? Wel, bu gan Beriah ddiddordeb ysol yn nhynged y Gadair o'r cychwyn cyntaf, gan mai ef oedd tad-yng-nghyfraith Timothy Lewis.[27] Byth oddi ar i Edward Anwyl gyhoeddi ei fod yn gadael Aberystwyth yn 1913 bu Beriah wrthi'n hybu ymgais ei fab-yng-nghyfraith am gael llenwi'r Gadair, a bu'n ceisio perswadio E. T. John i ddefnyddio'i

[26] LlGC 'Papurau E. T. John', 2358, llythyr dyddiedig 11 Hydref 1919.
[27] Arno, gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t, 205, a hefyd yr ysgrif arno yn E. Morgan Humphreys, *Gwŷr Enwog Gynt (Yr Ail Gyfres)* (Aberystwyth, 1953), tt. 120-31.

ddylanwad i bwyso ar Brifathro'r Coleg ac ar aelodau o'r Cyngor er mwyn canfasio cefnogaeth i Timothy. Mae modd gweld yn y gyfres o lythyrau hynod ddadlennol a anfonodd Beriah at ei gyfaill o wleidydd pa mor daer yr oedd dros deilyngdod ei fab-yng-nghyfraith i etifeddu'r Gadair Gymraeg, a hynny'n bennaf oherwydd cryfder ei gymwysterau fel ysgolhaig Celtaidd. Ystyriai Beriah ei fod ben ac ysgwydd uwchlaw Parry-Williams. Yn wir, yr oedd yn eithaf bychanus o hwnnw: 'This Co'tee,' meddai am y pwyllgor dewis ganol mis Medi, 'has reported in favour of appointing Parry Williams, who has *no* record of scholarly research or work to show, whose only testimonials are from Lloyd Jones, Dublin, and Ivor Williams, a Lecturer at Bangor'.[28] Cefnogwyr gwan oedd y rheini, ym marn Beriah, o gymharu â chefnogwyr Timothy Lewis, gan fod ei ganolwyr ef yn cynnwys ysgolheigion Celtaidd o fri, sef Joseph Loth a Joseph Vendryes o Baris, E. C. Quiggin o Gaer-grawnt, F. W. O'Connell o Felfast, a Thomas Powel, cyn-Athro Celteg Caerdydd. Credai Beriah fod Parry-Williams yn 'much inferior man'.

Roedd Beriah hefyd yn grediniol fod rhai o aelodau'r pwyllgor dewis wedi cynllwynio yn erbyn Timothy Lewis, a chyhuddodd yr hyn a alwai yn 'glic swyddogol' o'i rwystro rhag cael ei benodi i'r Gadair. Er iddo gydnabod statws John Morris-Jones a W. J Gruffydd fel ysgolheigion Celtaidd, honnai fod gan y naill a'r llall eu rhesymau personol dros fod yn wrthwynebus i gais ei fab-yng-nghyfraith: John Morris-Jones oherwydd i Timothy dynnu sylw at wallau yn ei *Welsh Grammar* a gyhoeddwyd yn 1913, a W. J. Gruffydd am i Timothy ymgeisio am Gadair Gelteg Caerdydd pan ymddeolodd Thomas Powel a phan benodwyd Gruffydd.

Nid mewn gohebiaeth bersonol yn unig yr ymddangosai sylwadau a oedd yn awgrymu bod y pwyllgor dewis yn ffafrio Parry-Williams rhagor na Timothy Lewis, oherwydd ar dudalennau'r *Caernarvon and Denbigh Herald* ar y 26ain o Fedi 1919, ymddangosodd colofn gan ohebydd yn tynnu sylw at yr anghyfiawnder a wnaed â Timothy Lewis:

> Mr. Parry Williams's rival is Mr. Timothy Lewis, who although a Celtic scholar of the highest standing, and the author of a number of standard works on the subject, sinned against the Pacifist clique at Aberystwyth by volunteering for the war. He went through the hottest corners of the Somme and the Salient battlefields, and is now to be rewarded by being kicked out to make room for Mr. Parry Williams...[29]

[28] LlGC 'Papurau E. T. John', 2312, dyddiedig 16 Medi 1919.
[29] *The Caernarvon and Denbigh Herald*, 26 Medi 1919, t. 8. Gw. hefyd ibid. t. 2, 'Celtic Chair at Aberystwyth'.

Llwyddodd y gohebydd hwn hefyd i gael cyfweliad arbennig â Gwenogvryn Evans a oedd, fel y gwyddom eisoes, yn aelod o Gyngor Coleg Aberystwyth. Yr hyn nad yw'r gohebydd yn ei ddweud yn ei erthygl yw fod Gwenogvryn ymhlith y rhai a gyflwynodd dystlythyr i gefnogi cais Timothy. Felly, doedd ef ddim yn gwbl ddiduedd. Cwyn bennaf Gwenogvryn oedd fod Cyngor y Coleg wedi anwybyddu ei farn ef y dylid penodi i Gadair yn yr ieithoedd Celtaidd, a bod y penderfyniad i gyfyngu'r Gadair i'r Gymraeg yn unig yn dangos cryn gulni. Roedd yn amau hefyd fod rhyw ddrwg yn y caws am na wahoddwyd ysgolheigion o'r tu allan i Gymru i wasanaethu ar y pwyllgor dewis.

Rhywbeth arall a gynhwysodd y gohebydd yn ei golofn oedd llythyr gan ddau o swyddogion Pwyllgor Cymreig Cymrodyr y Rhyfel Mawr, dyddiedig 23 Medi, yn protestio yn erbyn enwebu T. H. Parry-Williams ar gyfer y swydd am ei fod yn wrthwynebydd cydwybodol. Yr oeddynt wedi anfon llythyrau at aelodau o Gyngor y Coleg, meddent, ac wedi derbyn amryw o ymatebion, gan gynnwys llythyr gan Gwenogvryn Evans, y cafwyd ei ganiatâd parod ef i ddyfynnu'n helaeth ohono. Yn y dyfyniad hwnnw, roedd Gwenogvryn yn honni i Joseph Vendryes ddweud fel hyn wrtho am Parry-Williams: 'Dr. Parry-Williams has published nothing to interest a scholar.'[30] Aeth ymlaen i gondemnio John Morris-Jones am ei fod yn dal dig yn erbyn unrhyw un a oedd yn mentro anghytuno ag ef. Cefnogai Gwenogvryn ymyrraeth y Cymrodyr a galwai am eu cymorth i atal yr hyn a ystyriai yn sgandal. Honnai nad oedd y cyhoedd, nac ychwaith bob aelod o Gyngor y Coleg hyd yn oed, yn gwybod yr holl ffeithiau.

Rhaid cofio i'r golofn hon ymddangos yn y papur ar y 26ain o Fedi, sef yr union ddiwrnod pan oedd Cyngor y Coleg yn trafod y penodiad. Gan fod ei hawdur, sef y gohebydd dienw, mor wybodus ynghylch y ffeithiau, a chan iddo sicrhau cyfweliad arbennig â Gwenogvryn, a chael gafael ar lythyr y Cymrodyr, rwy'n amau y gall fod a wnelo Beriah Gwynfe Evans rywbeth â'r golofn hon. Mae holl dôn a goslef y sylwadau ynghylch y clic pasiffistaidd yn Aberystwyth, a'r sôn sydd am wrhydri Timothy Lewis yn y rhyfel, yn awgrymu nad oedd y gohebydd dienw yn gwbl ddiduedd.

Efallai nad cyd-ddigwyddiad yw i erthygl ymddangos yn y *South Wales Weekly Post* drannoeth, sef ar y 27ain o Fedi, a oedd yn adleisio cynnwys yr erthygl yn y *Caernarvon and Denbigh*, ac yn cyfeirio at farn Gwenogvryn Evans:

[30] Ibid.

> ...There is a deliberate attempt to oust Mr Timothy Lewis from his senior position at the college. Undoubtedly, it is pointed out, the successful applicant should be Mr Timothy Lewis ... who is not only better qualified, but whose patriotic action in volunteering for service in the war and going through the Somme battles, was a reflection on those who stayed at home.[31]

Nid dyna'r unig drafodaeth a gaed ar y penodiad ar dudalennau'r wasg, oherwydd fe barodd y cyhoeddiad fod T. H. Parry-Williams wedi ildio'i swydd a chofrestru fel myfyriwr dipyn o gynnwrf yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd. 'Aberystwyth Surprise' oedd y pennawd yn y *Western Mail* wrth adrodd am y newydd.[32] Fel y byddid yn disgwyl, bu tipyn o ohebu yng ngholofnau llythyrau'r ddau bapur lleol yn Arfon, yr *Herald Cymraeg* a'r *Caernarvon and Denbigh*. Yr unig ddrwg yw fod y llythyrau hyn yn cael eu hanfon a'u cyhoeddi dan ffugenwau fel na wyddom pwy oedd eu gwir awduron. Roedd hynny'n dân ar groen yr hanesydd o Rostryfan, W. Gilbert Williams, a anfonodd lythyr i'r *Genedl Gymreig* yn dwrdio'r arfer anonest o guddio y tu ôl i ffugenw. Ni wyddai Gilbert Williams, meddai, p'run o'r ddau ymgeisydd am y Gadair oedd y mwyaf teilwng, ond dywedodd mai T. H. Parry-Williams a enillodd ei gydymdeimlad ef oherwydd 'y malais a'r diffyg cydwybod a ddangosodd ei feirniaid dienw yn eu hymgyrch i'w erbyn'.[33]

Mae'n amlwg fod gan Parry-Williams ei gefnogwyr. Ond am bob llythyr cefnogol a ymddangosai ym mhapurau Caernarfon, fe geid llythyr gelyniaethus. Er enghraifft, anfonodd llythyrwr a'i galwai ei hun yn 'Un o Aberystwyth' at yr *Herald Cymraeg* ar 14eg o Hydref 1919, yn gofidio'n fawr, os oedd y si yn wir fod Parry-Williams yn bwriadu gadael ei swydd fel darlithydd, oherwydd fod parch mawr iddo ymhlith y myfyrwyr:

> Geill y Dr Parry Williams gael swydd uchel lle y mynno, ond iddo adael ei wlad ei hun. Dalied Cymru ei gafael ynddo yn ddioedi drwy roddi ei le priodol iddo yn Aberystwyth. Y mae ef yn un o fechgyn pura Cymru, yn ysgolhaig o'r radd flaenaf, ac fel bardd, yn awdur y bryddest odidocaf yn yr iaith Gymraeg, 'Y Ddinas'.[34]

Yr wythnos ganlynol ymddangosodd llythyr gan un a'i galwai ei hun yn 'Un Arall o Aberystwyth', y tro hwn yn herio'r llythyrwr blaenorol i gyflwyno tystiolaeth o blaid ei farn

[31] *South Wales Weekly Post*, 27 Medi 1919, t. 1.
[32] *Western Mail*, 17 Hydref 1919, t. 7.
[33] *Y Genedl Gymreig*, 18 Tachwedd 1919, t. 5.
[34] *Yr Herald Cymraeg*, 14 Hydref 1919, t. 8.

ynghylch rhagoriaeth Parry-Williams fel ysgolhaig. Yr oedd 'Un Arall o Aberystwyth' yn dadlau bod y rhes o ysgolheigion Celtaidd o fri a gefnogodd gais Timothy Lewis yn dystiolaeth i'r parch mawr a oedd i'w waith ef y tu hwnt i Gymru:

> Mae ffrwyth ysgolheictod Mr. Timothy Lewis yn hyspys. Cyhoeddodd dri o lyfrau mawr safonol a gydnabyddir ym myd Addysg Geltaidd ymhob man fel gweithiau ysgolor aeddfed yn y maes, ac yn gymorth amhrisiadwy i fyfyrwyr yn y maes. A gyhoeddwyd gymaint ag un llyfr safonol yn y maes gan Dr. Parry Williams?[35]

Yr unig lyfr ysgolheigaidd a oedd wedi ymddangos gan Parry-Williams oedd rhan o'i draethawd doethuriaeth ar seinyddiaeth y Gymraeg a'r Llydaweg, a gyhoeddwyd gan wasg ym Mharis yn 1913.[36] Roedd Timothy Lewis wedi cyhoeddi testun ffacsimili o Gyfraith Hywel Dda yn llawysgrif Llansteffan 116, sef y llyfr cyntaf yng nghyfres Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru yn 1912, geirfa'r Gyfraith Gymreig yn seiliedig ar destun o gyfraith Hywel Dda yn Llyfr Du'r Waun, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion yn 1913, a thestun meddygol a gyhoeddwyd yn Lerpwl, *A Welsh Leech Book* yn 1914. Roedd hefyd wedi cynorthwyo Kuno Meyer i orffen y llyfr ar Gymraeg Cynnar yr oedd y diweddar Athro John Strachan wedi gobeithio'i gwblhau cyn ei farwolaeth.[37] Yr oedd y rhain y gyfrolau safonol a safadwy. Yn sicr, ar sail ei gyhoeddiadau, ni all neb wadu nad oedd gan Timothy Lewis fantais amlwg.

Ar dudalennau'r *Caernarvon and Denbigh* y cafwyd un o'r ymosodiadau cyhoeddus ffyrnicaf ar Parry-Williams gan lythyrwr a ddefnyddiai'r ffugenw 'Aberystwythian', llythyr a atebwyd yr wythnos ganlynol gan 'Cardi', cyn i 'Another Cardi' ateb hwnnw yr wythnos wedyn. Mae llythyr Aberystwythian yn dangos inni natur y gwrthwynebiad i Parry-Williams yr heddychwr o du militarwyr a jingoistiaid y cyfnod wedi'r rhyfel pan oedd bri ar gyferbynnu aberth a dewrder y hogiau a wynebodd beryglon enbyd ar faes y gad ag amharodrwydd y conshis a lechodd gartref ac a gafodd eu harbed rhag erchyllterau'r rhyfel. Sut yn y byd, gofynnai'r llythyrwr, y gallai dyn fel Parry-Williams fod yn dderbyniol fel athro ar fyfyrwyr o gyn-filwyr a fu'n ymladd ac yn gwaedu yn y ffosydd?[38] Edliwiai hefyd fod Parry-Williams yn aelod o bwyllgor cylchgrawn Cymraeg y Coleg, *Y Wawr*, cylchgrawn y rhoddwyd y

[35] *Yr Herald Cymraeg*, 21 Hydref 1919, t. 8.
[36] Gw. *Some Points of Similarity in the Phonology of Welsh and Breton* (Paris, 1913).
[37] John Strachan, *An Introduction to Early Welsh* ed. Kuno Meyer (Manchester, 1908).
[38] *The Caernarvon and Denbigh Herald*, 10 Hydref 1919, t. 8.

farwol iddo gan awdurdodau'r Coleg am iddo gyhoeddi deunydd a ystyrid yn fradwrus, yn annheyrngar ac yn anwladgarol.[39]

Cyhoeddwyd ysgrif gan D. J. Williams yn rhifyn haf 1916 o'r cylchgrawn, er enghraifft, yn canmol safiad y gwrthwynebwr cydwybodol a oedd yr un mor esgymun gan bobl ag oedd yr Almaenwyr a'r Sinn Ffeiniaid.[40] Yn honno achubai D. J. gam yr Almaenwyr a'r Gwyddelod a'r dynion egwyddorol hynny a wrthwynebai ryfel. Lluniodd D. J. ysgrif arall y bwriedid ei chyhoeddi yn 1918 a oedd yn pleidio heddwch ac yn gwbl ddilornus o'r aelodau seneddol Cymreig am nad oeddynt ond cynffonwyr i'r Saeson a'r Ymerodraeth Brydeinig. Gwelodd rhywun a weithiai yn swyddfa argraffwyr y cylchgrawn yr ysgrif honno, a hynny a arweiniodd Ambrose Bebb y golygydd i ddyfroedd dyfnion, pan orchmynnwyd dod â'r cylchgrawn i ben. Trwy gydol yr helynt hwnnw bu Parry-Williams, a fu'n aelod o'r pwyllgor o'r cychwyn cyntaf fel cynrychiolydd y cyn-fyfyrwyr, yn un o bileri'r achos. Fel y dywedwyd amdano wrth gyflwyno diolchiadau mewn un rhifyn o'r cylchgrawn, 'Y mae gan 'Y Wawr' gyfaill cywir ynddo ef.'[41] A gwir y gair, oherwydd fe gefnogodd y myfyrwyr i'r carn.

Mae'n rhaid inni ein hatgoffa ein hunain pa mor fileinig a pharanoid oedd y dymer gyhoeddus yn ystod y rhyfel tuag at yr Almaenwyr. Un o'r penodau mwyaf gwaradwyddus yn hanes Aberystwyth oedd honno pan erlidiwyd yr Athro Hermann Ethé o'r dref gan haid o bobl a ddangosai eu dannedd gwrth-Almaenig. Roedd yr Athro Ethé yn ddinesydd Almaenig a roes bron i ddeugain mlynedd o wasanaeth i Goleg y Brifysgol fel Athro ieithoedd dwyreiniol ac Ewropeaidd. Ystyrid ef yn ieithydd athrylithgar ac yn ysgolhaig o fri rhyngwladol. Roedd hefyd yn ffefryn gan y myfyrwyr. Pan ddychwelodd ef a'i wraig o'u gwyliau ym mis Medi 1914 ymgasglodd torf o tua dwy fil o bobl a gorymdeithio at ei gartref gan fynnu ei fod ef a'i wraig yn gadael y dref o fewn pedair awr ar hugain. Roedd rhai aelodau o'r dyrfa yn awgrymu y dylid ei saethu neu ei grogi'n gyhoeddus. Dagrau pethau ydyw nad caridýms na gwerin ddi-ddysg a diddeall a gynhyrfai'r dyfroedd, ond rhai o barchusion y dref. Cyfreithiwr o gyngorydd tref a meddyg o ynad heddwch oedd arweinwyr yr erledigaeth honno. Bu cynghorwyr Bwrdeistref Aberystwyth hefyd yn erlid yr Athro Ethé wedi iddo ffoi o'r dref drwy wrthwynebu penderfyniad y Coleg i dalu'r arian a oedd yn

[39] Ar hanes tranc y cylchgrawn, gw. J. Gwyn Griffiths, 'Ysgrif a laddodd gylchgrawn', *Y Traethodydd*, cxxviii (1973), 114-7.
[40] 'Y Tri Hyn', *Y Wawr*, Haf 1916, 109-14.
[41] *Y Wawr*, Haf 1916, 133. Ar ymwneud Parry-Williams â'r cylchgrawn, gw. *Ffarwél i Freiburg*, tt. 311-18.

ddyledus iddo o'r gronfa bensiwn. Does ryfedd i'r Athro Ethé deimlo ei fod fel anifail gwyllt yn cael ei hela gan haid o helgwn.[42]

Mae'n amlwg fod peth o'r ysbryd erlitgar a dialgar hwnnw eto'n fyw ac yn iach yn Aberystwyth yn haf a hydref 1919 pan oedd T. H. Parry-Williams yn ymgeisydd am Gadair ei hen athro. Ni ellir ond dychmygu sut y teimlai Parry-Williams ei hun ar y pryd wrth weld ei enw'n cael ei bardduo ar dudalennau'r wasg. Ni wnaeth ef ddim, hyd y gwyddys, ymateb yn gyhoeddus i'r ymosodiadau arno, er bod yr ohebiaeth yn yr *Herald Cymraeg* yn llusgo'n ei blaen trwy gydol mis Tachwedd lle'r oedd sylwadau colofnydd 'Llith y Llew' yn denu ymateb gan bobl a ysgrifennai dan ffugenw 'Yr Oen o'r Gorlan' ac 'Ex-Service'. Os nad ymatebodd Parry-Williams ei hun yn bersonol i'r gohebiaethau yn y wasg, fe gafodd ei dad ei gythruddo gymaint gan yr ymosodiadau ar ei fab – a rhai o'r rheini yn ymylu ar fod yn enllibus – nes iddo anfon cyfres o bedwar llythyr cyfrinachol at Edward Morgan Humphreys, golygydd *Y Genedl Gymreig* a'r *North Wales Observer and Express*, dau o bapurau Caernarfon, rhag ofn y byddai ef yn gohebu ar y mater ac am gael y manylion cefndirol.[43] Cynhwysodd hefyd gopi o gais ei fab am y Gadair. Roedd Morgan Humphreys yn gyfaill mawr i T. Gwynn Jones, ac yn cydymdeimlo ag achos yr heddychwyr. Os bwriadai'r tad i'r golygydd gyflwyno rhai o'r ffeithiau yn y ddau gyhoeddiad yr oedd yn gyfrifol amdanynt, ni chafodd ei siomi, oherwydd mae modd gweld i Forgan Humphreys gynnwys rhai o sylwadau'r tad, heb eu priodoli iddo, mewn erthygl yn *Y Genedl Gymreig* ac yn y *North Wales Observer*.[44] Nid yw'n ymddangos fod neb o'r blaen wedi tynnu sylw at fodolaeth y llythyrau hyn o eiddo Henry Parry-Williams, nac ychwaith at yr ysgrif a gyplysodd wrth un o'r llythyrau lle'r oedd yn dadlau y byddai colli Parry-Williams o Gymru yn golled genedlaethol.[45] Manteisiodd ar y cyfle i gyflwyno safbwynt y teulu at holl helynt y Gadair Gymraeg yn wyneb y drafodaeth frwd yn y wasg leol, ac fe ddaw sawl peth hynod ddadlennol i'r amlwg yn sylwadau'r tad.

Gan fod Oscar, brawd iau T. H. Parry-Williams, wedi dychwelyd o'r fyddin i ailymgymryd â'i swydd fel clerc yng nghofrestrfa'r Coleg, ac Eurwen ei chwaer yn fyfyrwraig yn astudio llaethyddiaeth yno, roedd gan Henry Parry-Williams gysylltiad uniongyrchol â'r

[42] Gw. y dyfyniad o'r llythyr a anfonodd Hermann Ethé at J. H. Davies a geir yn erthygl Tegwyn Jones, 'Erlid yn Aber', yn Tegwyn Jones ac E. B. Fryde, goln., *Ysgrifau a Cherddi Cyflwynedig i Daniel Huws* (Aberystwyth, 1994), t. 174.
[43] LlGC 'Papurau E. Morgan Humphreys', A/3428-31.
[44] Gw. *Y Genedl Gymreig*, 21 Hydref 1919, t. 5, a'r *North Wales Observer and Express*, 24 Hydref 1919, t. 8.
[45] LlGC 'Papurau E. Morgan Humphreys', A/3431a. Bwriadaf gyhoeddi'r llythyrau a'r erthygl mewn cyhoeddiad arall maes o law.

digwyddiadau yn y Coleg o safbwynt y trafodaethau anffurfiol a ddigwyddai yn swyddfa'r Cofrestrydd a'r darpar Brifathro, J. H. Davies, a'r trafodaethau mwy ffurfiol yng nghyfarfodydd y Cyngor, a chysylltiad uniongyrchol hefyd trwy ei ferch â'r teimladau ymhlith y myfyrwyr.[46] Ffaith ddiddorol na thynnwyd sylw ati o'r blaen yw fod myfyrwyr y Coleg, ac amryw ohonynt yn gyn-filwyr a ddychwelasai o faes y gad, wedi cychwyn deiseb o blaid cael T. H. Parry-Williams yn ôl i'w swydd, a bod y ddeiseb honno'n cael ei chadw gan un o Athrawon y Coleg hyd nes pan fyddid ei hangen. Aeth yn gryn banig yn yr Adran Gymraeg pan gyhoeddodd Tom nad oedd yn bwriadu dychwelyd ar gyfer sesiwn 1919-20. Bu'n rhaid i T. Gwynn Jones a Timothy Lewis ymdopi orau y medrent hebddo am y flwyddyn wrth gynnig gwersi i'r 125 o fyfyrwyr a oedd yn yr Adran y sesiwn hwnnw. Diau iddynt weld yr adeg honno gymaint o waith yr oedd Parry-Williams wedi'i wneud i gynnal beichiau'r Adran am gyfnod o bum mlynedd, ac yn fwy felly yn ystod y tair blynedd y bu Timothy Lewis yn y fyddin. Gellir canfod ateg i sylwadau'r tad ynghylch cefnogaeth y myfyrwyr mewn nodyn yng ngholofn Euroswydd yn *Y Darian*, ar y 30ain o Hydref 1919, pan oedd Parry-Williams eisoes wedi cychwyn ar ei astudiaethau gwyddonol. Mae'r colofnydd yn dyfynnu o lythyr a anfonwyd ato gan efrydydd o'r Coleg yn dweud pa mor drist oedd gweld Parry-Williams yn cefnu ar ei swydd:

> Daeth yn [ô]l fel myfyriwr, a gwelir ef yn awr yn ymadael o'r darlithiau a'i bac llyfrau dan ei fraich megis newyddian. Cwyna y myfyrwyr eu colled, yn e[n]wedig y rhai a wyneba eu 'finals' y flwyddyn hon, oblegid fe ystyrid y Doctor yn ben darlithydd...[47]

Gwyddai'r tad yn iawn pwy oedd prif ysgogwyr yr ymgyrch yn erbyn ei fab, sef neb llai na Beriah Gwynfe Evans a Gwenogvryn Evans, a lwyddodd hefyd i ddwyn perswâd ar Esgob Tyddewi, John Owen, i roi ei big i mewn. Rhydd llythyron y tad olwg inni ar deimladau Parry-Williams yn ystod y cyfnod anodd hwnnw yn ei hanes. Yn wahanol i'r hyn a gredid gan rai ar y pryd, nid pwdu a wnaeth Parry-Williams drwy adael yr Adran Gymraeg, ond dewis troi at yrfa arall yn wyneb yr ansicrwydd parhaus ynghylch ei swydd.[48] Fel yr esbonia'i dad, yr oedd wedi bod yn byw mewn ansicrwydd am bum mlynedd a hanner wrth

[46] Yn sesiwn 1917-18 y cofrestrodd Eurwen Parry-Williams yn y Coleg, gw. Cofrestr y Myfyrwyr yn Archifdy Prifysgol Aberystwyth, blwch R/AC/1, rhif 5023 yn y gofrestr. Cymerai ran yn nadleuon y Gymdeithas Geltaidd, gw. *The Dragon*, Ebrill 1919, tt. 111-12. Erbyn sesiwn 1919-20 yr oedd yn ei thrydedd flwyddyn, gw. *The Dragon*, Ionawr 1920, t. 53.
[47] *Y Darian*, 30 Hydref 1919, t. 7. Prosser Rhys oedd 'Euroswydd', gw. Rhisiart Hincks, *E. Prosser Rhys 1901-45* (Llandysul, 1980), t. 26.
[48] Honnid yn y *South Wales News*, 18 Hydref 1919, t. 8, er enghraifft, ei fod yn 'disappointed candidate for the Chair of Welsh'.

adnewyddu'i gytundeb fel darlithydd cynorthwyol o flwyddyn i flwyddyn, ac yr oedd bellach yn 32 oed. Pe bai'n oedi am flwyddyn arall, ofnai y byddai'n rhy hen i feddwl am newid gyrfa. Tybiai'r tad y byddai mynd yn feddyg yn gam ymlaen i'w fab am y gallai fod yn feistr arno'i hun.[49]

Fel y clywsom yn barod, yr oedd y sawl a gynhyrfai'r dyfroedd yn y wasg yn honni bod Joseph Vendryes o'r Sorbonne ym Mharis wedi bychanu ysgolheictod Parry-Williams, a oedd yn gyn-fyfyriwr iddo, drwy ddewis cefnogi cais Timothy Lewis, er na fu hwnnw erioed yn ddisgybl iddo. Y gwir amdani, fel y dadlenna Henry Parry-Williams, yw i'w fab ofyn i Vendryes am dystlythyr, ond iddo wrthod am nad aeth Parry-Williams i'r fyddin i gynorthwyo Ffrainc yn awr ei hangen. Ond efallai mai un o'r pethau mwyaf diddorol a ddywed y tad wrth Edward Morgan Humphreys yw fod soned gan Tom wedi ymddangos ar dudalennau'r *Western Mail*, a bod hynny'n dangos ei fod cyn ddewred ag erioed dros arddel ei ryddid barn. Y soned arbennig honno oedd 'Change', a ymddangosodd wedyn yn y casgliad o ugain o sonedau Saesneg a gyhoeddwyd ganddo'n breifat yn 1932 dan y teitl *Sonnets*. Yr hyn a wna yw dyheu am gael peth o gadernid mynyddoedd cartref ei blentyndod yn Eryri er mwyn gallu gwrthsefyll stormydd bywyd, ac wynebu'r pethau annisgwyl a ddeuai i'w ran:

> If I can court the courage of those hills
> That in the stillness of my native glen
> Store the wise calm of ages, while their wills,
> Cast in a monster mould unknown to men,
> Lend of their stiffening essence to my own,
> To stand the storm and brave the batterings
> Of every thwarting chance, to face alone
> The fateful forms of unawaited things;
> Changing, as they do, but the outer hue
> At the sad bidding of a sun that sets,
> Or melting in a mist-birth out of view
> To seeming nothingness; – then, what regrets
> Will dare to taunt me with a vanished fame,
> If, spite of outward change, I rest the same[?][50]

Cwbl nodweddiadol o Parry-Williams yw ei fod yn amodi'r dyhead cawraidd hwn am gael nerth gyda chwestiwn, sef pa ddiben cael dewrder allanol os yw'n parhau'n greadur ofnus a

[49] Llythyr Henry Parry-Williams at E. Morgan Humphreys, 16 Hydref 1916, LlGC 'Papurau E. Morgan Humphreys', A3429: 'Ei fwriad ar hyn o bryd ydyw mynd am ei M.D. Llundain. Odid na fydd hynny yn gam ymlaen yn hytrach nag yn [ô]l; ac os llwydda, bydd yn feistr arno'i hun.'
[50] *Western Mail*, 14 Hydref 1919, t. 4.

phetrus y tu mewn. Dyna inni awgrym digon diamwys o'i ymateb i'r argyfwng a'i hwynebai ar y pryd. Yn sicr, yr oedd yn ddyn dewr i ddal ei dir a gwrthsefyll y math o ddirmyg a dderbyniai gan bobl a oedd yn wrthwynebus iddo oherwydd ei ddaliadau heddychol, ac yn ddigon dewr hefyd am bron i flwyddyn i droi ei gefn ar astudiaethau iaith a llên a chychwyn ar drywydd addysgol newydd a ffres. Ac fe ellid dadlau fod angen cryn dipyn o blwc hefyd i ddychwelyd i'r Adran yn 1920, pan gafodd ei benodi i'r Gadair, o ystyried yr amgylchiadau anodd ac annymunol a oedd ynghlwm â'r holl helynt.

Llawenhâi Henry Parry-Williams oherwydd fod agwedd rhai o'r papurau newydd tuag at ei fab yn dechrau newid. Cyhoeddodd *Y Cymro* ar ei dudalen flaen yn nechrau Tachwedd 1919, er enghraifft, fod peth dicter ynghylch yr erlid a fu ar T. H. Parry-Williams:

> ...y mae erlid dyn am ei fod yn wrthwynebwr cydwybodol yn gymaint o warth ar y wlad ag ydyw erlid y Protestaniaid yn Spaen neu erlid Ymneilltuwyr yng Nghymru. A dylai Cymru sylweddoli hynny.[51]

Roedd gweld fod y rhod yn dechrau troi yn argyhoeddi prifathro Ysgol Rhyd-ddu fod barn y cyhoedd o blaid ei fab.

Dewis dychwelyd a wnaeth Parry-Williams, pan ailhysbysebwyd y swydd yn haf 1920 yn y *Times Educational Supplement*. Y tro hwn, fe gynigiodd tri ymgeisydd arall, sef y Parch Gwili Jenkins, y Parch W. H. Harries, a'r Athro J. Lloyd-Jones, Dulyn, ond enwau T. H. Parry-Williams a J. Lloyd-Jones yn unig a roddwyd ar y rhestr fer. Fe gofiwch mai J. Lloyd-Jones, Dulyn, oedd un o ganolwyr Parry-Williams flwyddyn ynghynt, ac i bobl edliw fod gan Timothy Lewis well canolwyr nag ef. Y tro hwn, ni allodd gyfrif ar farn J. Lloyd-Jones, ond fe gynhwysodd eirda gan J. Glyn Davies o Brifysgol Lerpwl. Canmolai hwnnw T. H. Parry-Williams fel yr ieithydd Cymraeg gorau a ddaeth o Aberystwyth erioed, a bod Edward Anwyl wedi sôn wrtho am Parry-Williams fel ei ddisgybl gorau. Mae'n werth dyfynnu rhan o'i eirda sy'n cyfeirio at ei hygrededd fel ieithydd:

> Welsh would-be Philologists have earned a bad name for pot-shot work, which, though effective enough in playing to the gallery, would be ruinous to the reputation of any seat of learning; but Dr. Parry-Williams is immune from that sort of foolishness.[52]

[51] *Y Cymro*, 5 Tachwedd 1919, t. 1.
[52] Dyfynnir o'r geirda yng nghais Parry-Williams am y Gadair a welir yn ffeil y Gadair Gymraeg yn 1919-20 yn Archifdy Prifysgol Aberystwyth, blwch C/C.S.CH./2.

Nid yw'n amhosibl fod ergyd gynnil i Timothy Lewis yn y sylwadau hyn, oherwydd ymddangosodd ysgrif ganddo yn *Y Wawr* ar 'Philoreg', sef chwarae ar yr enw 'philoleg', ysgrif a gafodd ei hateb gan Ifor Williams wedyn, ac y cyfeiriwyd ati gan W. J. Gruffydd yn ei adroddiad yn cloriannu'r ymgeiswyr yn 1919 fel ysgrif a ddangosai na feddai Timothy Lewis ar yr wybodaeth ieithyddol ddigonol a ddisgwylid gan Athro'r Gymraeg yn Aberystwyth.[53]

Yn ei ail gais ef am y Gadair ym mis Mehefin 1920, cyfeiriodd Timothy Lewis at yr amgylchiadau wrth annerch aelodau'r Cyngor gan awgrymu fod pethau'n eithaf amrwd o hyd:

> I beg to submit anew the Application and Testimonials I had the honour of presenting to you last year.
>
> In doing so I may be permitted to say that, although certain members of that Selection Committee were known to be determinedly hostile to my candidature for reasons which are by this time fairly well known, I have the satisfaction of knowing as your Council also knows, that those generally regarded as the best Celticists in Europe differed emphatically from the adverse views taken by some Members of that Committee for that occasion.[54]

Efallai nad dyna'r geiriau doethaf o ystyried fod tri o aelodau'r pwyllgor dewis blaenorol yn parhau'n aelodau o'r pwyllgor newydd, sef yr Athrawon John Morris-Jones, W. J. Gruffydd ac Edward Edwards. Nid syndod, felly, na roddwyd Timothy Lewis ar y rhestr fer ganddynt. Ond yr oeddynt yn argymell y dylid cynnig rhyw swydd iddo er mwyn caniatáu iddo barhau â'i waith ymchwil.

Fodd bynnag, pan gyflwynwyd argymhelliad y pwyllgor dewis gerbron y Cyngor llawn ym mis Gorffennaf, dangoswyd petisiwn a gyflwynwyd gan gyn-filwyr o Fwrdeistref Aberystwyth a darllenwyd telegramau a dderbyniwyd o Bencadlys Cymrodyr y Rhyfel Mawr ac oddi wrth y Cadfridog Syr Owen Thomas yn cynnwys sylwadau ynghylch y penodiad.

[53] Gw. *Y Wawr*, Haf 1917, 102-7. Cyhoeddwyd ysgrif Ifor Williams, 'Gwrthffiloreg', yn *Y Wawr*, Gaeaf 1917, 15-19.
[54] Cais Timothy Lewis am y Gadair yn ffeil y Gadair Gymraeg yn Archifdy Prifysgol Aberystwyth, blwch C/C.S.CH./2.

Aelod Seneddol Môn oedd Syr Owen Thomas ar y pryd, a bu am gyfnod yn ystod y rhyfel yn un o ben-recriwtwyr y fyddin.[55]

Ar ôl trafodaeth faith – ac nid oedd honno ond un o blith nifer o drafodaethau maith a fu ynghylch y penodiad hwn – fe benderfynwyd yn unfrydol y dylid ychwanegu enw Timothy Lewis at y rhestr fer ac y dylid ei gyfweld. Diau y byddai peidio â'i gynnwys ar y rhestr wedi cynhyrfu mwy ar y dyfroedd, ac wedi cadarnhau honiadau rhai o'i gefnogwyr fod cynllwyn bwriadol wedi bod i'w gau allan.

Ar ôl cyfweld y tri ymgeisydd, sef T. H. Parry-Williams, John Lloyd-Jones a Timothy Lewis, cynhaliwyd pleidlais, a thrwy fwyafrif etholwyd Parry-Williams. Pan gyflwynodd y Cyngor adroddiad ar y penodiad yng nghofnodion cyfarfod Llys Llywodraethol y Coleg, y geiriau a gofnodwyd oedd:

> The Chair of Welsh, vacant since the lamented death of Sir Edward Anwyl in 1914, has now been filled by the appointment of his most distinguished pupil, Dr. T. H. Parry-Williams.[56]

Teimlid bod cyfiawnder wedi'i weinyddu a bod y byd bellach wedi dod yn ôl i'w le, er gwaethaf dwndwr Cymrodyr y Rhyfel Mawr a'r erlidwyr eraill. Yr oedd y geiriau hynny yng nghofnodion y Llys yn gryn ergyd i'r rhai a fu'n erlid Parry-Williams ers dros flwyddyn, ac ni fyddem yn synnu o gwbl pe baem yn dyfalu'n gywir mai J. H. Davies oedd eu hawdur, oherwydd gwyddom ei fod ef yn un o edmygwyr Parry-Williams.[57] Erbyn 1920 yr oedd J. H. Davies bellach wedi'i benodi'n Brifathro'r Coleg, a J. W. Marshall, a oedd wedi cadeirio cyfarfodydd y pwyllgor dewis fel prifathro dros dro flwyddyn ynghynt, wedi dychwelyd at ei ddyletswyddau fel Is-Brifathro, a'r naill a'r llall fel ei gilydd yn gwybod yn dda am gryfderau amlwg T. H. Parry-Williams. Yn wir, yr oedd yr Athro Marshall ymhlith ei ganolwyr yn 1920, ac nid oedd ganddo ddim ond canmoliaeth i'w waith a'i ymroddiad ers pan ddychwelodd i Aberystwyth yn 1914:

> Since his return to College as an Assistant Lecturer in Welsh he has conducted all the work of the Department which fell to his share with great skill, energy, and enthusiasm.

[55] Arno gw. John Davies et al., *Gwyddoniadur Cymru* (Caerdydd, 2008), t. 895.
[56] Archifdy Prifysgol Aberystwyth, *Adroddiadau Llys y Llywodraethwyr 1916-23*, CRT/2/3, t. 83, sef adroddiad y Cyngor i Lys y Llywodraethwyr ar 29 Hydref 1920.
[57] Gw. T. I. Ellis, *John Humphreys Davies (1871-1926)* (Lerpwl, 1963), t. 115.

> He has proved himself an excellent teacher, and has won the full confidence of his students.[58]

Pam y dychwelodd Parry-Williams ynteu? Pwy a'i perswadiodd i ailgyflwyno'i gais ym mis Mehefin 1920, cyn iddo sefyll ei arholiadau mynediad i Brifysgol Llundain, os oedd angen dwyn perswâd arno o gwbl, hynny yw? Ai cael traed oer a wnaeth ynghylch newid llwybr ei yrfa? Er bod y drafodaeth yn y wasg ynghylch y Gadair wedi tawelu erbyn haf 1920, yr oedd ei elynion yn dal i brotestio ac i roi pwysau ar Gyngor y Coleg. Ond ni rwystrodd hynny ef rhag ymgeisio am yr eildro. Mae'n bosibl iawn fod a wnelo ei deyrngarwch i'w hen Athro rywbeth â'i ddychweliad, yn ogystal â'i deyrngarwch i'r pwnc. Hawdd credu hefyd y byddai cryn anogaeth o du ei dad a'i frodyr ac eraill, ar iddo fentro'i het am yr eilwaith, am eu bod yn gwirioneddol gredu mai bod yn ysgolhaig Cymraeg oedd ei bennaf galwedigaeth. Mae'r pwyslais sydd ar y golled genedlaethol a fuasai wedi bod petasai wedi cefnu ar Gymru yn erthygl anghyhoeddedig Henry Parry-Williams yn awgrymu mai barn ei dad oedd mai yn yr Adran Gymraeg yr oedd ei briod le.[59] Y tebyg yw nad y teulu'n unig a bwysleisiai'r cyfrifoldeb a oedd arno i ddychwelyd oherwydd y cyfraniad mawr a oedd ganddo i'w wneud fel darlithydd ac ysgolhaig Cymraeg, ond pobl fel John Morris-Jones a W. J. Gruffydd. Rwy'n synhwyro fod cefnogaeth y Prifathro J. H. Davies a'i ddirprwy, J. W. Marshall, wedi bod yn allweddol hefyd.

Yr oedd honiadau ar led, fel y dywedid gan lythyrwr yn y *Cambrian News*, fod ffydd y cyhoedd yng ngallu awdurdodau'r Coleg i wneud penodiadau'n deg wedi'i danseilio oherwydd yr argraff a fodolai mai ffefrynnau yn unig a gâi eu penodi i swyddi.[60] Honnai'r llythyrwr ei bod yn wybyddus yn y Coleg mai T. Gwynn Jones a fyddai'n llenwi'r Gadair mewn llenyddiaeth ym mis Awst 1919 ymhell cyn i'r hysybyseb am y swydd ymddangos. Roedd un o golofnwyr y *South Wales News* hefyd yn tynnu sylw at benodiadau yn Aberystwyth pan oeddid yn chwilio am brifathro newydd ym mis Hydref 1919, gan honni bod clicyddiaeth a chenfigen ac uchelgais bersonol yn niweidio'r sefydliad.[61] Awgrymai fod angen penodi Prifathro a oedd yn ddigon cadarn i adfer ffydd y cyhoedd yn y Coleg. Does

[58] Gw. ail gais T. H. Parry-Williams am y Gadair ym Mehefin 1920 yn ffeil y Gadair Gymraeg yn Archifdy Prifysgol Aberystwyth, blwch C/C.S.CH./2. Ystyrid J. W. Marshall yn ŵr hynaws a chanddo gymysgedd o awdurdod a dogn go dda o synnwyr cyffredin wrth wynebu sefyllfaoedd anodd yn y Coleg, gw. Ellis, *The University College of Wales Aberystwyth 1872-1972*, t. 276.
[59] LlGC 'Papurau E. Morgan Humphreys', A/3431a.
[60] Gw. 'College Appointments' gan 'Cwmystwyth', *The Cambrian News and Welsh Farmers' Gazette*, 12 Medi 1919, t. 8.
[61] *South Wales News*, 10 Hydref 1919, t. 7.

dim tystiolaeth fod Parry-Williams wedi derbyn ffafriaeth gan neb oherwydd, fel y gwelsom, yr oedd gan Timothy Lewis ei gefnogwyr ar Gyngor y Coleg, a thrwy bleidlais agored ymhlith holl aelodau'r Cyngor yr etholwyd Parry-Williams. Y gwir amdani yw fod ei ysgolheictod a'i record fel darlithydd, ynghyd â'i ddoniau fel bardd a wnaeth gampau yn yr Eisteddfod Genedlaethol drwy ennill y gadair a'r goron ddwywaith, yn fwy na digon o dystiolaeth ynghylch ei deilyngdod.

Dof yn ôl ar y diwedd fel hyn at y soned 'Change' – teitl hynod arwyddocaol o ystyried fod ei hawdur adeg ei chyhoeddi wedi penderfynu gwneud un newid mawr yn ei yrfa drwy gefnu ar ei swydd. Ac eto nid annisgwyl oedd ei weld yn troi fel cwpan mewn dŵr am ei fod yn gymeriad eithaf petrus yn y bôn, ac mae awgrym o'r petrustod hwnnw i'w gael yn y soned ei hun. Wrth ddymuno cael nerth dewrder allanol i wynebu'r storm, yr oedd yn amau gwerth hynny os parhâi'n ddigyfnewid y tu mewn. Dyheai am allu newid rhywbeth nad oedd modd ei newid o gwbl, sef natur ei gymeriad ef ei hun.

Does dim dwywaith nad oedd T. H. Parry-Williams yn ddyn a ddioddefodd erledigaeth oherwydd ei safiad fel heddychwr. Ond fe ddangosodd fod ganddo ddigon o rym ewyllys ac asgwrn cefn i lynu wrth ei egwyddorion doed a ddelo yn wyneb sawl her, a hynny ar adeg pan oedd dynion o bob argyhoeddiad yn gorfod wynebu heriau dirdynnol o sawl cyfeiriad.

[SUMMARY]

‘T. H. Parry-Williams and the Chair of Welsh at Aberystwyth in 1919-1920’

This was the Society’s annual Welsh lecture delivered at the Welsh Government’s Office in London on 4 June 2014, chaired by Dr Adrian Morgan.

T. H. Parry-Williams returned from his academic studies at the universities of Freiburg and the Sorbonne in 1914 to take up a post as temporary assistant lecturer in his *Alma Mater* at the University College of Wales, Aberystwyth. Sir Edward Anwyl, Professor of Welsh at Aberystwyth and Parry-Williams’s mentor, had been appointed Principal of the new teacher training college at Caerleon. Prof Anwyl had previously stated in a personal letter to Henry Parry-Williams (T. H. Parry-Williams’s father) that he wanted to see his gifted son become his successor in due time, but after Anwyl’s untimely death in August 1914, and throughout the war years, the Chair of Welsh was left vacant. When the Military Service Act 1916 came into force, Parry-Williams registered as a conscientious objector and had to face opposition in an appeals tribunal when his request for exemption was at first turned down. After appealing against that decision he was later granted conditional exemption because of his personal conviction as a pacifist and also because his work as a university lecturer was considered to be of national importance. His three younger brothers served in the army and survived the war.

When the Aberystwyth University authorities did eventually move to fill the Welsh Chair in July 1919, Parry-Williams faced fierce opposition from certain quarters because of his pacifist stance during the war. One of the other candidates for the post was Timothy Lewis, a colleague of Parry-Williams, who had volunteered for the war in 1915 and served in France as a member of the Royal Gunners Artillery regiment.

These facts are fairly well-known and are well documented, but what has not been discussed in detail before is the nature and strength of the opposition to Parry-Williams in the Welsh press. It can be said that he was hounded by his enemies – Comrades of the Great War, the Archbishop of St David's, and some Aberystwyth townspeople who signed a petition against him and in favour of Timothy Lewis, who had served King and country. But he was also given unfair treatment in the press. When the university Court decided to postpone filling the Chair of Welsh until June 1920, Parry-Williams resigned his post as assistant lecturer and registered as a first year science student with the intention of entering the medical profession. Before the end of the 1919-20 academic session he decided to re-apply for the Chair, when it was re-advertised and when he was finally appointed. As he himself referred to the occasion later in life, one morning he was an undergraduate student and in the afternoon a chaired professor!

The lecture draws attention to hitherto undiscussed letters sent by his father to the influential editor of two Caernarfon based newspapers, Edward Morgan Humphreys, offering him the true facts in light of what he felt were misguided and unfair accusations made by some of Parry-Williams' enemies in the press. These letters give us an insight into the feelings of Parry-Williams and his family at a time when his credentials as a scholar were publicly discussed and questioned because of his pacifist stance and his so-called unpatriotic action during the war.